

Iechyd a Lles Myfyrwyr yng Nghymru:
Canfyddiadau allweddol o Arolwg Iechyd a
Lles Myfyrwyr Ysgolion Cynradd y
Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion




Paratowyd yr adroddiad gan is-dîm ehangu Cynradd SHRN (yn nhrefn yr wyddor): Lianna Angel, Rebecca Anthony, Kelly Buckley, Lauren Copeland, Amy Edwards, Jemma Hawkins, Graham Moore, Kelly Morgan, Simon Murphy, Bethan Pell, Safia Ouerghi, Joan Roberts, Jordan van Godwin

Cydnabyddir yn ddiolchgar gyllid gan Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Gweinidog Addysg Llywodraeth Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno ymchwil annibynnol, a safbwyntiau'r awduron a chynhwysir ynddo, yn hytrach na safbwyntiau Llywodraeth Cymru neu ei chynrychiolwyr.

Mae elfennau o'r adroddiad hwn yn defnyddio dadansoddiad eilaidd o arolwg 2019 a ariannwyd gan *Cancer Research UK* hefyd (C57590/A25754).

Cefnogwyd y gwaith hwn hefyd gan DECIPHer, a ariennir gan Lywodraeth Cymru drwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, a Chanolfan Wolfson ar gyfer Iechyd Meddwl Pobl Ifanc, a sefydlwyd â grant gan Sefydliad Wolfson.



Analysis for Policy



Cynnwys

- Cefndir
- Dyluniad yr ymchwil
- Demograffeg samplu
- Prif ganfyddiadau o 2021
- Cymhariaeth ragarweiniol o'r deilliannau allweddol o ddata 2021 ag arolwg tebyg o 2019

Cefndir

- Mae'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Mewn Ysgolion (SHRN)¹ wedi datblygu model ymchwil ymgysylltiedig ar draws pob ysgol uwchradd brif ffrwd yng Nghymru, gydag ysgolion yn bartneriaid.
- Mae hyn yn cynnwys arolygon ar lefel myfyrwyr ac ysgolion bob dwy flynedd, sy'n cael ciplun rheolaidd o ymddygiad iechyd a lles pobl ifanc 11 i 16 oed.
- Fodd bynnag, mae'r ffocws ar y glasoed yn unig yn rhy hwyr i lawer o bobl ifanc, ac mae ein gwaith blaenorol wedi dangos, er enghraifft, bod gan nifer sylweddol o bobl ifanc anawsterau emosiynol clinigol sylweddol erbyn iddynt adael ysgol gynradd².
- Mae ehangu SHRN i ysgolion cynradd yn cynnig cyfle ar gyfer gwaith cydgysylltiedig ar draws plentyndod a'r glasoed, ynghyd â dull i ddeall a chefnogi digwyddiadau fel pontio i'r ysgol uwchradd yn well.
- Ym mis Awst 2020, rhoddodd Llywodraeth Cymru gyllid ar gyfer gwaith i ddatblygu model i ehangu SHRN i ysgolion cynradd, a gwerthuso nifer o faterion allweddol yn ymwneud â dichonolrwydd.
- Roedd hyn yn cynnwys arolwg cenedlaethol o ddisgyblion Blwyddyn 6, gyda samplau atgyfnerthu gan awdurdodau lleol, i alluogi adrodd ar ddata lles disgyblion ar lefel ysgolion, awdurdodau lleol ac ar lefel genedlaethol.
- Yma, rydym yn cyflwyno data cenedlaethol o 2021, ynghyd â chymariaethau rhagarweiniol ag arolwg tebyg o 2019. Defnyddiodd yr arolygon ddulliau ychydig yn wahanol, a gwnaed newidiadau i alluogi arolwg 2021 o fewn mesurau cadw pellter cymdeithasol COVID-19 (mae dadansoddiadau manylach o'r newid dros amser yn mynd rhagddynt ar gyfer erthyglau cyfnodolion, a chânt eu cyflwyno i'w hadolygu gan gymheiriaid dros yr ychydig fisoedd nesaf).

Dyluniad yr ymchwil (1)

Dyluniad yr arolwg

- Ar sail adolygiad o fesuriadau presennol yn SHRN (a'u haddasrwydd ar gyfer disgyblion oed cynradd), adborth gan randdeiliaid, ymgynghoriad â grŵp cyfranogiad cyhoeddus pobl ifanc ALPHA, ac adolygiad o fesuriadau lles eraill sy'n cael eu defnyddio mewn arolygon ysgolion cynradd yn y DU, datblygwyd arolwg.
- Lle'n bosibl, er mwyn helpu cymaroldeb a'n harolwg ysgolion uwchradd, roedd eitemau o'r un fath, neu'n fersiynau syml o gwestiynau sy'n cael eu gofyn yn Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr SHRN.³
- Roedd rhai cwestiynau'n adlewyrchu'r rhai a ddefnyddiwyd mewn arolwg ysgolion cynradd blaenorol gan DECIPHer² er mwyn caniatáu cymharu ymatebion a gasglwyd cyn ac yn ystod y pandemig.

Dyluniad yr ymchwil (2)

Dulliau

- Datblygwyd arolwg dwyieithog ar-lein â 36 o gwestiynau
- Gwahoddwyd disgyblion ym Blwyddyn 6* (10-11 oed) i gymryd rhan
- Rhoddwyd protocol ymchwil i bob ysgol er mwyn sicrhau y gweinyddwyd yr arolwg yn gyson. Goruchwyliwyd yr arolwg gan athrawon yn yr ystafell ddosbarth
- Casglwyd data rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2021 (gohiriwyd o'r tymor blaenorol ar ôl i'r ysgolion gau i'r rhan fwyaf o ddisgyblion ym mis Rhagfyr 2020)

Caniatâd

- Llofnododd ysgolion gytundeb
- Rhoddwyd gwybod i rieni am yr astudiaeth, a rhoddwyd cyfle iddynt ddewis i'w plant beidio â chymryd rhan os nad oeddent yn dymuno iddynt wneud hynny
- Cydsyniodd y plant os oeddent am gymryd rhan

**Mewn 27 o ysgolion â grwpiau blwyddyn llai neu grwpiau blwyddyn ar y cyd, cymerodd disgyblion Blwyddyn 5 ran hefyd, ond o ystyried y sampl fach anghynrychioliadol (N=419), ni chaiff y data ei gynnwys yn yr adroddiad hwn.*

Dyluniad yr ymchwil (3)

Samplu

- At ei gilydd, gwahoddwyd 224 o ysgolion i gymryd rhan yn yr arolwg, gan gynnwys:
 - 73 a oedd wedi cymryd rhan mewn arolwg tebyg yn 2019 (ynghyd ag un ysgol ychwanegol i gymryd lle ysgol a wrthododd yn syth)
 - 150 o bedwar awdurdod lleol astudiaeth achos, gyda'r samplau wedi'u haenu yn ôl cyfran y plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim

Cyfraddau ymateb

- Cytunodd 118 o ysgolion i ddechrau, ond ar ôl oedi oherwydd cau ysgolion a chynnydd amrywiol yn Delta, ni chwblhaodd rai ohonynt yr arolwg cyn pen yr amser penodedig
- At ei gilydd, cymerodd **76 o ysgolion** ran, o 19 o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru (34%)
 - Mae cyfraddau ymateb ysgolion yn is nag arolygon blaenorol, a all achosi rhai tueddiadau
- Y cyfraddau ymateb ar lefel disgyblion yn yr ysgolion a gymerodd ran oedd 80% (o gymharu ag 88% yn 2019).
 - Y gyfradd ymateb ganolrifol oedd 88%, a gostyngwyd y canolrif gan nifer fach o ysgolion a gyflawnodd gyfraddau isel
- Llenwodd 71 o ysgolion yr arolwg ar-lein, a 5 gan ddefnyddio papur a phensil
- Dewisodd llai nag 1% o rieni i'w plentyn beidio â chymryd rhan, a gwrthododd 14 o ddisgyblion i gymryd rhan yn yr arolwg
- Llenwodd **1863 o ddisgyblion Blwyddyn 6** yr arolwg

Nodiadau ar adrodd

- Roedd data coll yn amrywio ar gyfer eitemau unigol yn yr arolwg
- Mae gennym fwy o hyder mewn amcangyfrifon sydd â lefel is o ddata coll
- Darperir rhifau sylfaen ar draws yr eitemau yr adroddir arnynt. Mae cod lliw yn dynodi lefel y data coll:
 - Gwyrdd – llai na 5% o ddata coll
 - Melyn - 5-10%
 - Coch - >10%

Demograffeg samplu

Traeanau Prydau Ysgol am Ddim (PYaDd):

- **Isel:** llai na 12% o ddisgyblion yn gymwys i gael PYaDd
- **Canolig:** rhwng 12% -22% o ddisgyblion yn gymwys i gael PYaDd
- **Uchel:** mwy na 22% o ddisgyblion yn gymwys i gael PYaDd

	% y disgyblion sy'n gymwys i gael PYaDd		
	Isel	Canol	Uchel
Ysgolion cyfrannog (N)	27	24	25
Dim ymateb (N)	38	53	35
Wedi gwrthod/tynnu'n ôl (N)	8	6	7

Sylwer: Nid oedd % PYaDd un ysgol ar gael

Pwysoliad – cymhwyswyd pwysoliad i gywiro samplau anghymesur awdurdodau lleol ac ymatebion amrywiol gan awdurdodau lleol

*Mae'r sgorau cyfoeth teuluol (FAS) yn cynnwys 5 o'r 6 eitem a ddefnyddir mewn arolygon uwchradd. Hefgorwyd y 6ed eitem (amlder gwyliau teuluol) gan na chafodd ei llenwi gan ~20% o ddisgyblion, tra'r oedd plant a lenwodd yr eitem hon sawl gwaith yn llai tebygol o roi gwybod am wyliau teuluol nag mewn blynyddoedd blaenorol, oherwydd COVID-19 mae'n debyg. Yn wahanol i eitemau eraill FAS, nid oedd amrywiadau yn yr eitem hon yn gysylltiedig â'r hawl i gael PYaDd.

Disgyblion Cyfrannog		
		%
Sgôr cyfoeth teuluol*4	Isel	31
	Canolig	42
	Uchel	27
Rhywedd	Bachgen	47
	Merch	49
	Hunaniaeth arall o ran rhywedd	1
	Data coll	2
Ethnigrwydd	Gwyn Prydeinig	84
	Gwyn heb fod yn Brydeinig	6
	Arall	10
Yn byw gyda...	Dau riant	68
	Llysdeulu	10
	Mam sengl	16
	Dad sengl	1

Prif ganfyddiadau o 2021

Adroddir ar yr adrannau canlynol:


- 1) Pryderon yn ymwneud â COVID-19
- 2) Iechyd a lles meddyliol
- 3) Bwyta'n iach a gweithgarwch corfforol
- 4) Cysylltioldeb ysgol
- 5) Pontio rhwng ysgolion
- 6) Dyfeisiau electronig (defnyddio sgrin)
- 7) Cwsg
- 8) Ysmygu yn y cartref
- 9) Cymariaethau o fesurau sydd ar gael o 2019 a 2021

Y defnydd o gwestiynau ar draws arolygon SHRN

Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr Cynradd	Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr Uwchradd ³
Rhywedd	✓ (fersiwn wedi'i haddasu)
Blwyddyn ysgol	✓
Oed (mis a blwyddyn geni)	✓
Ethnigrwydd	✓ (fersiwn hwy)
Strwythur y teulu (h.y. â phwy ydych chi'n byw)	✓ (fersiwn hwy)
Prif iaith sy'n cael ei siarad gartref	✓
Addysg rhieni	
Cyflogaeth rhieni	
Graddfa cyfoeth teuluol ⁴	✓
Bodddhad â bywyd (graddfa Cantril)	✓
Holiadur Fi a Fy Nheimpladau (fersiwn wedi'i haddasu; Deighton et al., 2013) ⁵	
Mewnoli symptomau SHRN	✓
Graddfa bodddhad bywyd myfyrwyr (Huebner, 1991) ⁶	
Pryderon yn ymwneud â COVID	
Hoffi'r ysgol	✓
Perthnasoedd â disgyblion eraill	✓
Ymgysylltiad â'r ysgol	✓
Perthnasoedd â staff ysgol	✓
Pontio rhwng ysgolion (Rice et al., 2017, 2021) ^{7,8}	
Defnyddio technoleg a chyfryngau cymdeithasol	✓ (fersiwn hwy)
Cyfyngiadau rhieni ar ddyfeisiau electronig	
Arferion ysmygu ymhlith aelodau'r teulu	
Amser gwely	✓
Bwyta ffrwythau a llysiau	✓
Gweithgarwch corfforol	✓

1) PRYDERON YN YMWNEUD Â COVID-19


Ffigur 1.1 Canran a grybwyllodd eu bod yn poeni am ystod o faterion yn ystod y pandemig y rhan fwyaf o'r amser neu drwy'r amser (%)




- Roedd y pryderon mwyaf a grybwyllwyd gan blant yn ystod y pandemig yn ymwneud â pherthnasoedd cymdeithasol
- Crybwyllodd tuag un o bob tri ohonynt bryderon cyson am eu teulu'n mynd yn sâl, mynd yn ôl i'r ysgol neu fynd y tu allan
- Crybwyllodd un o bob 8 ohonynt bryderon cyson am ddod yn sâl eu hunain
- Crybwyllodd un o bob 11 ohonynt bryderon cyson am fod â digon i'w fwyta

Sylfaen (amrywiad fesul eitem): Yr holl ymatebwyr ym Mlwyddyn 6 a roddodd ateb (N = 1,769 i 1,809)

Ffigur 1.2 Canran a grybwyllodd eu bod yn poeni am beidio â gweld eu ffrindiau yn ystod y pandemig (%)




Ffigur 1.3 Canran a grybwyllodd eu bod yn poeni am beidio â gweld eu ffrindiau yn ystod y pandemig y rhan fwyaf o'r amser neu drwy'r amser, yn ôl rhywedd a chyfoeth teuluol (%)




- Crybwyllodd 81% o blant eu bod yn poeni am beidio â gweld eu ffrindiau o leiaf rywfaint o'r amser, gan gynnwys 47% a grybwyllodd eu bod yn poeni y rhan fwyaf o'r amser neu drwy'r amser
- Roedd merched ychydig yn fwy tebygol na bechgyn o grybwyll eu bod yn poeni y rhan fwyaf o'r amser neu drwy'r amser, a chrybwyllwyd pryderon cyson yn fwyaf cyffredin ymhlith plant o'r grŵp cyfoeth teuluol canolig

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr ym Mlwyddyn 6 a roddodd ateb (N = 1,809)

Ffigur 1.4 Canran a grybwyllodd eu bod yn poeni am beidio â gweld eu teulu yn ystod y pandemig (%)




Ffigur 1.5 Canran a grybwyllodd eu bod yn poeni am beidio â gweld eu teulu yn ystod y pandemig y rhan fwyaf o'r amser neu drwy'r amser, yn ôl rhywedd a chyfoeth teuluol (%)




- Crybwyllodd 71% o blant eu bod yn poeni am beidio â gweld eu teuluoedd o leiaf rywffaint o'r amser, gan gynnwys 42% a grybwyllodd eu bod yn poeni y rhan fwyaf o'r amser neu drwy'r amser
- Roedd merched yn fwy tebygol na bechgyn o grybwyll eu bod yn poeni y rhan fwyaf o'r amser neu drwy'r amser, a chrybwyllwyd pryderon cyson yn fwy cyffredin ymhlith plant o deuluoedd â chyfoeth isel neu ganolig

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr ym Mlwyddyn 6 a roddodd ateb (N = 1,802)

Ffigur 1.6 Canran y plant a grybwyllodd eu bod yn poeni am eu teulu'n mynd yn sâl yn ystod y pandemig (%)




Ffigur 1.7 Canran a grybwyllodd eu bod yn poeni am eu teulu'n mynd yn sâl yn ystod y pandemig y rhan fwyaf o'r amser neu drwy'r amser, yn ôl rhywedd a chyfoeth teuluol (%)




- Crybwyllodd 77% o blant eu bod yn poeni am eu teulu'n mynd yn sâl o leiaf rywffaint o'r amser, gan gynnwys 33% a oedd yn poeni'r rhan fwyaf o'r amser neu drwy'r amser
- Roedd merched yn fwy tebygol na bechgyn o grybwyll eu bod yn poeni'r rhan fwyaf o'r amser neu drwy'r amser, a chrybwyllyd pryderon cyson yn fwy cyffredin ymhlith plant o'r grwpiau cyfoeth teuluol isel a chanolig

Ffigur 1.8 Canran a grybwyllodd eu bod yn poeni am fynd yn ôl i'r ysgol yn ystod y pandemig (%)




Ffigur 1.9 Canran a grybwyllodd eu bod yn poeni am fynd yn ôl i'r ysgol yn ystod y pandemig y rhan fwyaf o'r amser neu drwy'r amser, yn ôl rhywedd a chyfoeth teuluol (%)




- Crybwyllodd 67% o blant eu bod yn poeni am fynd yn ôl i'r ysgol o leiaf rywffaint o'r amser, gan gynnwys 32% a grybwyllodd eu bod yn poeni y rhan fwyaf o'r amser neu drwy'r amser
- Plant o'r teuluoedd lleiaf cyfoethog oedd yn fwyaf tebygol o grybwyll eu bod yn poeni am fynd yn ôl i'r ysgol y rhan fwyaf o'r amser neu drwy'r amser

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr ym Mlwyddyn 6 a roddodd ateb (N = 1,784)

Ffigur 1.10 Canran y plant a grybwyllodd eu bod yn poeni am fynd y tu allan yn ystod y pandemig (%)




Ffigur 1.11 Canran a grybwyllodd eu bod yn poeni am fynd y tu allan yn ystod y pandemig y rhan fwyaf o'r amser neu drwy'r amser, yn ôl rhywedd a chyfoeth teuluol (%)




- Crybwyllodd 59% o blant eu bod yn poeni am fynd y tu allan o leiaf rywfaint o'r amser, gan gynnwys 29% a grybwyllodd eu bod yn poeni y rhan fwyaf o'r amser neu drwy'r amser
- Roedd bechgyn yn fwy tebygol o grybwyll eu bod yn poeni am fynd allan y rhan fwyaf o'r amser neu drwy'r amser, ac roedd pryderon cyson ychydig yn fwy cyffredin ymhlith plant o deuluoedd llai cyfoethog

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr ym Mlwyddyn 6 a roddodd ateb (N = 1,797)

Ffigur 1.12 Canran y plant a grybwyllodd eu bod yn poeni am fod i ffwrdd o'r ysgol yn ystod y pandemig (%)




Ffigur 1.13 Canran y plant a grybwyllodd eu bod yn poeni am fod i ffwrdd o'r ysgol yn ystod y pandemig y rhan fwyaf o'r amser neu drwy'r amser, yn ôl rhywedd a chyfoeth teuluol (%)




- Crybwyllodd 62% o blant eu bod yn poeni am fod i ffwrdd o'r ysgol o leiaf rywffaint o'r amser, gan gynnwys 25% a grybwyllodd eu bod yn poeni y rhan fwyaf o'r amser neu drwy'r amser
- Roedd merched yn fwy tebygol na bechgyn o grybwyll eu bod yn poeni y rhan fwyaf o'r amser neu drwy'r amser, ac roedd pryderon cyson ychydig yn fwy cyffredin ymhlith plant o deuluoedd llai cyfoethog

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr ym Mlwyddyn 6 a roddodd ateb (N = 1,804)

Ffigur 1.14 Canran y plant a grybwyllodd eu bod yn poeni am fynd yn sâl eu hunain yn ystod y pandemig (%)




Ffigur 1.15 Canran a grybwyllodd eu bod yn poeni am fynd yn sâl eu hunain yn ystod y pandemig y rhan fwyaf o'r amser neu drwy'r amser, yn ôl rhywedd a chyfoeth teuluol (%)




- Crybwyllodd 60% o blant eu bod yn poeni am fynd yn sâl eu hunain o leiaf rywffaint o'r amser, gan gynnwys 14% a grybwyllodd eu bod yn poeni y rhan fwyaf o'r amser neu drwy'r amser
- Roedd merched yn fwy tebygol na bechgyn o grybwyll eu bod yn poeni y rhan fwyaf o'r amser neu drwy'r amser

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr ym Mlwyddyn 6 a roddodd ateb (N = 1,769)

Ffigur 1.16 Canran a grybwyllodd eu bod yn poeni am beidio â bod â digon i'w fwyta (%)



Ffigur 1.17 Canran a grybwyllodd eu bod yn poeni am fod â digon o fwyd i'w fwyta yn ystod y pandemig y rhan fwyaf o'r amser neu drwy'r amser, yn ôl rhywedd a chyfoeth teuluol (%)




- Crybwyllodd 24% o blant eu bod yn poeni am beidio â bod â digon i'w fwyta o leiaf rywffaint o'r amser, gan gynnwys 9% a grybwyllodd eu bod yn poeni y rhan fwyaf o'r amser neu drwy'r amser
- Plant o'r teuluoedd lleiaf cyfoethog oedd yn fwyaf tebygol o grybwyll eu bod yn poeni y rhan fwyaf o'r amser neu drwy'r amser am beidio â bod â digon i'w fwyta

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr ym Mlwyddyn 6 a roddodd ateb (N = 1,780)

2) IECHYD A LLES MEDDYLIOL

Ffigur 2.1 Sgôr anawsterau emosiynol cymedrig yn yr Holiadur Fi a Fy Nheimladau^{5*}, at ei gilydd ac yn ôl rhywedd a chyfoeth teuluol




- Mae sgôr uchel ar y raddfa hon (amrediad=0-20) yn adlewyrchu anawsterau emosiynol uwch
- Roedd gan ferched sgôr anawsterau emosiynol uwch, ar gyfartaledd, o gymharu â bechgyn (h.y. mwy o anawsterau emosiynol)
- Roedd graddiant economaidd-gymdeithasol amlwg, ac roedd sgôr gymedrig uwch ymhlith myfyrwyr o deuluoedd llai cyfoethog

**Mae sgorau'r graddfeydd wedi'u 'cyfraddio' (h.y. wedi'u seilio ar nifer yr eitemau a gwblhawyd) ar yr amod bod >50% o eitemau unigol wedi'u cwblhau. Dim ond amcangyfrifon ychydig yn wahanol a gafwyd lle y cyfyngwyd i 'achosion cyflawn' (cymedr=6.8)*

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr ym Mlwyddyn 6 a roddodd ateb (N = 1,850)

Ffigur 2.2 Canran a oedd yn bodloni'r trothwy ar gyfer anawsterau emosiynol dyrchafedig neu glinigol sylweddol, at ei gilydd ac yn ôl rhywedd a chyfoeth teuluol (%) ⁵




- Crybwyllodd dros chwarter y plant fod ganddynt anawsterau emosiynol dyrchafedig ($\geq 10/20$), a chrybwyllodd 13% fod ganddynt anawsterau emosiynol clinigol sylweddol ($\geq 12/20$)*
- Crybwyllodd mwy o ferched na bechgyn anawsterau emosiynol sylweddol
- Roedd graddiant cymdeithasol amlwg, ac roedd plant o'r teuluoedd lleiaf cyfoethog yn fwyaf tebygol o grybwyll anawsterau emosiynol.

**Mae sgorau'r graddfeydd wedi'u 'cyfraddio' ar yr amod bod >50% o eitemau unigol wedi'u cwblhau. Lle y'i cyfyngwyd i achosion cyflawn, crybwyllodd 25% anawsterau emosiynol dyrchafedig neu glinigol sylweddol*

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr ym Mlwyddyn 6 a roddodd ateb (N = 1,850)

Ffigur 2.3 Sgôr anawsterau ymddygiadol cymedrig yn yr Holiadur Fi a Fy Nheimladau^{5*}, at ei gilydd ac yn ôl rhywedd a chyfoeth teuluol




- Mae sgôr uwch ar y raddfa hon (0-12) yn adlewyrchu anawsterau ymddygiadol uwch
- Crybwyllodd bechgyn fwy o anawsterau ymddygiadol, ar gyfartaledd, o gymharu â merched (h.y. mwy o anawsterau ymddygiadol)
- Crybwyllodd plant o'r teuluoedd lleiaf cyfoethog y sgorau anawsterau ymddygiadol uchaf, a'r rhai o'r teuluoedd mwyaf cyfoethog a grybwyllodd y sgorau isaf

**Mae sgorau'r graddfeydd wedi'u 'cyfraddio' ar yr amod bod >50% o eitemau unigol wedi'u cwblhau. Cafwyd amcangyfrifon tebyg lle y cyfyngwyd i 'achosion cyflawn' (cymedr y sampl lawn=3.0)*

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr ym Mlwyddyn 6 a roddodd ateb (N = 1,838)


Ffigur 2.4 Canran a oedd yn bodloni'r trothwy ar gyfer anawsterau ymddygiadol dyrchafedig neu glinigol sylweddol, at ei gilydd ac yn ôl rhywedd a chyfoeth teuluol (%)⁵




- Roedd 15% o'r plant yn bodloni'r trothwy ar gyfer anawsterau ymddygiadol dyrchafedig (6/12) neu glinigol sylweddol (>6/12)
- Crybwyllodd mwy o fechgyn anawsterau dyrchafedig o gymharu â merched
- Plant o'r teuluoedd lleiaf cyfoethog oedd yn fwyaf tebygol o grybwyll anawsterau ymddygiadol dyrchafedig

**Mae sgorau'r graddfeydd wedi'u 'cyfraddio' ar yr amod bod >50% o eitemau unigol wedi'u cwblhau. Lle y'i cyfyngwyd i achosion cyflawn, crybwyllodd 14% anawsterau ymddygiadol dyrchafedig neu glinigol sylweddol
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr ym Mlwyddyn 6 a roddodd ateb (N = 1,838)*

Ffigur 2.5 Graddfa boddhad bywyd (%)⁶



Ffigur 2.6 Canran a roddodd sgôr o 8 neu fwy ar gyfer eu boddhad â bywyd, at ei gilydd ac yn ôl rhywedd a chyfoeth teuluol (%)⁶




- Crybwyllodd 64% o blant graddau uchel o foddhad â bywyd (h.y. $\geq 8/10$), a chrybwyllodd cyfran ychydig yn uwch o fechgyn lefel uchel o foddhad â bywyd
- Mae rhywfaint o dystiolaeth o raddiant cymdeithasol, gyda llai o blant o deuluoedd llai cyfoethog yn crybwyll lefel uchel o foddhad â bywyd


Sylfaen: Yr holl ymatebwyr ym Mlwyddyn 6 a roddodd ateb (N = 1,770)

3) BWYTA'N IACH A GWEITHGARWCH
CORFFOROL

Ffigur 3.1 Amllder bwyta ffrwythau (%)




Ffigur 3.2 Canran sy'n bwyta ffrwythau o leiaf bob dydd, at ei gilydd ac yn ôl rhywedd a chyfoeth teuluol (%)




- Crybwyllodd 47% o blant eu bod yn bwyta ffrwythau o leiaf unwaith y dydd. Roedd merched yn fwy tebygol na bechgyn o grybwyll eu bod yn bwyta ffrwythau'n ddyddiol
- Crybwyllodd 50% o blant o deuluoedd mwy cyfoethog eu bod yn bwyta ffrwythau'n ddyddiol, o gymharu â 43% o blant o'r teuluoedd lleiaf cyfoethog

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr ym Mlwyddyn 6 a roddodd ateb (N = 1,806)

Ffigur 3.3 Amllder bwyta llysiâu (%)




Ffigur 3.4 Canran sy'n bwyta llysiâu o leiaf bob dydd, at ei gilydd ac yn ôl rhywedd a chyfoeth teuluol (%)




- Crybwyllodd 41% eu bod yn bwyta llysiâu o leiaf unwaith y dydd. Roedd merched yn fwy tebygol na bechgyn o grybwyll eu bod yn bwyta llysiâu'n ddyddiol
- Crybwyllodd 52% o blant o'r teuluoedd mwyaf cyfoethog eu bod yn bwyta llysiâu'n ddyddiol, o gymharu â 35% o'r teuluoedd lleiaf cyfoethog

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr ym Mlwyddyn 6 a roddodd ateb (N = 1,793)

Ffigur 3.5 Canran a grybwyllodd eu bod yn gwneud ymarfer corff o leiaf 4 gwaith yr wythnos (%)



Ffigur 3.6 Canran a grybwyllodd eu bod yn gwneud ymarfer corff o leiaf 4 gwaith yr wythnos, at ei gilydd ac yn ôl rhywedd a chyfoeth teuluol (%)




- Crybwyllodd 51% o blant eu bod yn gwneud ymarfer corff yn eu hamser rhydd (cymaint fel eu bod yn colli eu gwynt ac yn chwysu) 4 gwaith yr wythnos neu fwy, gyda nifer sylweddol fwy o fechgyn yn crybwyll hyn
- Roedd plant o deuluoedd mwy cyfoethog yn fwy tebygol o grybwyll eu bod yn gwneud ymarfer corff 4 gwaith yr wythnos neu fwy


Sylfaen: Yr holl ymatebwyr ym Mlwyddyn 6 a roddodd ateb (N = 1,713)

4) CYSYLLTIOLDEB YSGOL

Ffigur 4.1 Teimladau am yr ysgol (%)




Ffigur 4.2 Canran sy'n hoff iawn o'r ysgol, at ei gilydd ac yn ôl rhywedd a chyfoeth teuluol (%)




- Crybwyllodd 81% o blant eu bod yn hoffi'r ysgol o leiaf ychydig bach, a chrybwyllodd 36% eu bod yn hoff iawn o'r ysgol
- Roedd merched a phlant o deuluoedd mwy cyfoethog yn fwy tebygol o grybwyll eu bod yn hoff iawn o'r ysgol

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr ym Mlwyddyn 6 a roddodd ateb (N = 1,808)

Ffigur 4.3 Yn teimlo bod eu hathrawon yn pryderu amdanynt fel unigolion (%)




Ffigur 4.4 Canran sy'n cytuno bod eu hathrawon yn pryderu amdanynt fel unigolion, at ei gilydd ac yn ôl rhywedd a chyfoeth teuluol (%)




- Roedd 90% o blant yn cytuno bod eu hathrawon yn pryderu amdanynt, ac roedd merched ychydig yn fwy tebygol na bechgyn o grybwyll bod athrawon yn pryderu amdanynt
- Gwelwyd adroddiadau tebyg rhwng grwpiau cyfoeth teuluol

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr ym Mlwyddyn 6 a roddodd ateb (N = 1,794)

Ffigur 4.5 Yn teimlo bod athrawon yn eu derbyn fel y maent (%)




Ffigur 4.6 Canran sy'n cytuno bod athrawon yn eu derbyn fel y maent, at ei gilydd ac yn ôl rhywedd a chyfoeth teuluol (%)




- Roedd 90% o blant yn cytuno bod athrawon yn eu derbyn fel y maent, ac roedd merched ychydig yn fwy tebygol na bechgyn o grybwyll eu bod yn teimlo bod athrawon yn eu derbyn
- Roedd y gwahaniaethau rhwng grwpiau cyfoeth teuluol yn fach

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr ym Mlwyddyn 6 a roddodd ateb (N = 1,795)

Ffigur 4.7 Yn ymddiried mewn athrawon (%)




Ffigur 4.8 Canran sy'n cytuno eu bod yn ymddiried yn eu hathrawon, at ei gilydd ac yn ôl rhywedd a chyfoeth teuluol (%)




- Roedd 85% o blant yn cytuno eu bod yn ymddiried yn eu hathrawon
- Roedd y gwahaniaethau yn ôl rhywedd a statws economaidd-gymdeithasol yn fach

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr ym Mlwyddyn 6 a roddodd ateb (N = 1,799)

Ffigur 4.9 Aelod staff i rannu pryderon â nhw (%)




Ffigur 4.10 Canran sy'n cytuno bod i leiaf un oedolyn yn yr ysgol y gallant rannu pryderon â nhw, at ei gilydd ac yn ôl rhywedd a chyfoeth teuluol (%)




- Roedd 82% o blant yn cytuno bod o leiaf un oedolyn yn yr ysgol y gallant siarad â nhw am bethau sy'n eu poeni, ac roedd merched ychydig yn fwy tebygol o grybwyll hyn na bechgyn
- Roedd plant o deuluoedd llai cyfoethog ychydig yn fwy tebygol o grybwyll bod ganddynt oedolyn y gallant siarad â nhw na'r rhai o deuluoedd mwy cyfoethog

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr ym Mlwyddyn 6 a roddodd ateb (N = 1,752)

Ffigur 4.11 Disgyblion yn mwynhau bod gyda'i gilydd (%)




Ffigur 4.12 Canran sy'n cytuno neu'n cytuno'n gryf bod disgyblion yn mwynhau bod gyda'i gilydd, at ei gilydd ac yn ôl rhywedd a chyfoeth teuluol (%)




- Crybwyllodd 80% o blant bod disgyblion yn eu hysgol yn mwynhau bod gyda'i gilydd
- Roedd bechgyn a phlant o deuluoedd mwy cyfoethog yn fwy tebygol o grybwyll bod disgyblion yn eu hysgol yn mwynhau bod gyda'i gilydd

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr ym Mlwyddyn 6 a roddodd ateb (N = 1,794)

Ffigur 4.13 Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn garedig ac yn gynorthwyol (%)




Ffigur 4.14 Canran sy'n cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn garedig ac yn gynorthwyol, at ei gilydd ac yn ôl rhywedd a chyfoeth teuluol (%)




- Crybwyllodd 72% o blant fod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn eu hysgol yn garedig ac yn gynorthwyol. Roedd bechgyn yn fwy tebygol o gytuno na merched
- Roedd plant o deuluoedd mwy cyfoethog ychydig yn fwy tebygol o gytuno bod disgyblion yn garedig ac yn gynorthwyol

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr ym Mlwyddyn 6 a roddodd ateb (N = 1,810)

Ffigur 4.15 Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn fy nerbyn fel ydw i (%)




Ffigur 4.16 Canran sy'n cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn eu derbyn fel y maent, at ei gilydd ac yn ôl rhywedd a chyfoeth teuluol (%)




- Roedd 75% o blant yn cytuno bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn eu derbyn fel y maent
- Bechgyn a phlant o deuluoedd mwy cyfoethog oedd yn fwyaf tebygol o gytuno bod disgyblion yn eu derbyn fel y maent

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr ym Mlwyddyn 6 a roddodd ateb (N = 1,744)

Ffigur 4.17 Mae myfyrwyr yn cael dweud eu dweud wrth gynllunio a threfnu gweithgareddau a digwyddiadau yn yr ysgol (%)




Ffigur 4.18 Canran sy'n cytuno bod myfyrwyr yn cael dweud eu dweud wrth gynllunio a threfnu gweithgareddau a digwyddiadau yn yr ysgol, at ei gilydd ac yn ôl rhywedd a chyfoeth teuluol (%)




- Roedd 71% o blant yn cytuno bod myfyrwyr yn cael dweud eu dweud wrth gynllunio gweithgareddau yn yr ysgol
- Roedd merched a phlant o deuluoedd mwy cyfoethog ychydig yn fwy tebygol o grybwyll bod myfyrwyr yn cael dweud eu dweud wrth gynllunio gweithgareddau

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr ym Mlwyddyn 6 a roddodd ateb (N = 1,721)

Ffigur 4.19 Mae myfyrwyr yn cael llawer o gyfleoedd i helpu i benderfynu a chynllunio prosiectau ysgol (%)




Ffigur 4.20 Canran sy'n cytuno bod myfyrwyr yn cael llawer o gyfleoedd i helpu i benderfynu a chynllunio prosiectau ysgol, at ei gilydd ac yn ôl rhywedd a chyfoeth teuluol (%)




- Roedd 72% o blant yn cytuno bod myfyrwyr yn cael cyfle i helpu i gynllunio prosiectau ysgol
- Roedd plant o deuluoedd mwy cyfoethog ychydig yn fwy tebygol o gytuno bod myfyrwyr yn cael cyfle i helpu i gynllunio prosiectau ysgol

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr ym Mlwyddyn 6 a roddodd ateb (N = 1,750)

Ffigur 4.20 Caiff syniadau myfyrwyr eu cymryd o ddifrif yn yr ysgol (%)




Ffigur 4.21 Canran sy'n cytuno y caiff syniadau myfyrwyr eu cymryd o ddifrif yn yr ysgol, at ei gilydd ac yn ôl rhywedd a chyfoeth teuluol (%)




- Roedd 72% o blant yn cytuno y caiff syniadau disgyblion eu cymryd o ddifrif yn yr ysgol
- Roedd merched a phlant o deuluoedd mwy cyfoethog ychydig yn fwy tebygol o gytuno y caiff syniadau disgyblion eu cymryd o ddifrif

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr ym Mlwyddyn 6 a roddodd ateb (N = 1,747)

Ffigur 4.22 Canran sy'n teimlo bod rhai eraill yn eu bwlio (%)



Ffigur 4.23 Canran sy'n teimlo bod rhai eraill yn eu bwlio, at ei gilydd ac yn ôl rhywedd a chyfoeth teuluol (%)




- Crybwyllodd 28% o blant eu bod yn teimlo bod rhai eraill yn eu bwlio o leiaf rywffaint o'r amser
- Merched a phlant o'r teuluoedd lleiaf cyfoethog oedd yn fwyaf tebygol o grybwyll eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu bwlio


Sylfaen: Yr holl ymatebwyr ym Mlwyddyn 6 a roddodd ateb (N = 1,765)

5) PONTIO RHWNG
YSGOLION

Ffigur 5.1 Yn poeni am bontio i'r ysgol uwchradd (%) ^{7,8}




Ffigur 5.2 Canran sy'n poeni cryn dipyn neu'n poeni'n fawr am bontio i'r ysgol uwchradd, at ei gilydd ac yn ôl rhywedd a chyfoeth teuluol (%) ^{7,8}




- Crybwyllodd hanner y plant eu bod yn poeni am bontio rhwng ysgolion, o leiaf i ryw raddau, a chrybwyllodd 36% ohonynt yn bod yn poeni cryn dipyn neu'n poeni'n fawr
- Roedd merched yn fwy tebygol na bechgyn o grybwyll eu bod yn poeni am bontio. Roedd graddiant cymdeithasol amlwg, ac roedd plant o'r teuluoedd lleiaf cyfoethog yn fwy tebygol o grybwyll eu bod yn poeni

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr ym Mlwyddyn 6 a roddodd ateb (N = 1,833)

Ffigur 5.3 Edrych ymlaen at bontio i'r ysgol uwchradd (%)^{7,8}



Ffigur 5.4 Edrych ymlaen at bontio i'r ysgol uwchradd, at ei gilydd ac yn ôl rhywedd a chyfoeth teuluol (%)^{7,8}




- Crybwyllodd fwy na dau draean o'r plant eu bod yn edrych ymlaen cryn dipyn neu'n fawr iawn at bontio i'r ysgol uwchradd
- Roedd rhywfaint o dystiolaeth o raddiant cymdeithasol, ond roedd hyn yn llai amlwg nag ar gyfer poeni am bontio

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr ym Mlwyddyn 6 a roddodd ateb (N = 1,838)

6) DYFEISIAU ELECTRONIG (DEFNYDDIO SGRIN)


Ffigur 6.1 Canran a grybwyllodd eu bod yn berchen ar ffôn clyfar (%)



- Crybwyllodd y rhan fwyaf o'r plant eu bod yn berchen ar ffôn clyfar, a chrybwyllodd mwy o ferched na bechgyn eu bod yn berchen ar un
- Roedd perchenogaeth o ffonau clyfar ychydig yn uwch ymhlith plant o deuluoedd cyfoeth canolig neu uchel

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr ym Mlwyddyn 6 a roddodd ateb (N = 1,863)


Ffigur 6.2 Canran a grybwyllodd eu bod yn berchen ar eu cyfrifiadur neu eu gliniadur eu hunain (%)



- Crybwyllodd dau draean o'r plant eu bod yn berchen ar eu cyfrifiadur neu eu gliniadur eu hunain
- Roedd y berchenogaeth uchaf ymhlith plant o deuluoedd mwy cyfoethog

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr ym Mlwyddyn 6 a roddodd ateb (N = 1,863)


Ffigur 6.3 Canran a grybwyllodd eu bod yn berchen ar lechen gyfrifiadurol (%)



- Crybwyllodd bron i ddau draean o'r plant eu bod yn berchen ar lechen gyfrifiadurol, ac roedd merched yn fwy tebygol na bechgyn o grybwyll eu bod yn berchen ar un
- Roedd rhywfaint o dystiolaeth o raddiant cymdeithasol, ac roedd plant o deuluoedd mwy cyfoethog yn fwy tebygol o grybwyll eu bod yn berchen ar lechen gyfrifiadurol

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr ym Mlwyddyn 6 a roddodd ateb (N = 1,863)

Ffigur 6.4 Defnyddio dyfeisiau electronig yn rheolaidd (%)




- Gan amlaf, crybwyllodd plant eu bod yn defnyddio dyfeisiau ar gyfer adloniant a chysylltiadau cymdeithasol
- Crybwyllwyd defnydd rheolaidd at ddibenion addysgol rhywfaint yn llai aml


Sylfaen (amrywiad fesul eitem): Yr holl ymatebwyr ym Mlwyddyn 6 a roddodd ateb (N = 1,656 i 1,823)

7) CWSG

Ffigur 7.1 Amser gwely (%)




Ffigur 7.2 Canran sy'n crybwyll amser gwely o 10pm neu'n hwyrach, at ei gilydd ac yn ôl rhywedd a chyfoeth teuluol (%)




- Crybwyllodd 79% o blant amser gwely o 9pm neu'n hwyrach, a chrybwyllodd 43% ohonynt amser gwely o 10pm neu'n hwyrach
- Crybwyllodd mwy o fechgyn na merched, a mwy o blant o deuluoedd llai cyfoethog, amser gwely hwyrach

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr ym Mlwyddyn 6 a roddodd ateb (N = 1,774)

Ffigur 7.3 Cyfyngiadau rhieni ar ddefnyddio dyfeisiau electronig cyn amser gwely (%)



Ffigur 7.4 Cyfyngiadau rhieni ar ddefnyddio dyfeisiau electronig cyn amser gwely (%)




- Crybwyllodd mwy na dau draean o'r plant (68%) fod rhiant yn cyfyngu ar eu defnydd o ddyfeisiau electronig cyn amser gwely
- Nid oedd llawer o wahaniaeth o ran rhywedd. Plant yn y grŵp cyfoeth canolig oedd yn fwyaf tebygol o grybwyll bod rhieni'n cyfyngu ar ddefnyddio dyfeisiau cyn amser gwely

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr ym Mlwyddyn 6 a roddodd ateb (N = 1,756)

8) YSMYGU YN YR
AELWYD


Ffigur 8.1 Canran sydd â riant sy'n ysmegu, at ei gilydd ac yn ôl rhywedd a chyfoeth teuluol (%)



- Crybwyllodd 37% o blant fod ganddynt riant sy'n ysmegu
- Crybwyllodd mwy na dwywaith cymaint o blant o deuluoedd llai cyfoethog fod ganddynt riant sy'n ysmegu, o gymharu â phlant o'r teuluoedd mwyaf cyfoethog

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr ym Mlwyddyn 6 a roddodd ateb (N = 1,772)

Ffigur 8.2 Canran sydd â rhiant sy'n ysmegu yng nghartref y teulu, at ei gilydd ac yn ôl rhywedd a chyfoeth teuluol (%)



- Crybwyllodd 14% o blant fod rhiant yn ysmegu yn y cartref
- Roedd graddiant cymdeithasol cryf yn y rhai a grybwyllodd fod rhiant yn ysmegu yn y cartref

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr ym Mlwyddyn 6 a roddodd ateb (N = 1,771)

Crynodeb o'r canfyddiadau – iechyd a lles plant yn 2021

- Roedd y pryderon a grybwyllwyd gan amlaf gan blant mewn perthynas â COVID-19 yn ymwneud â pherthnasoedd cymdeithasol, wedi'u dilyn gan bryderon am aelod o'r teulu'n mynd yn sâl. Roedd rhai pryderon yn dueddol o fod ychydig yn fwy cyffredin ymhlith plant o deuluoedd tlotach.
- Crybwyllodd bron i 1 o bob 7 o blant anawsterau emosiynol clinigol sylweddol, a chrybwyllodd tuag 1 o bob 14 ohonynt anawsterau ymddygiadol clinigol sylweddol. Crybwyllodd llawer mwy ohonynt anawsterau dyrchafedig ond is-glinigol. Rhoddodd bron i ddau draean ohonynt sgôr o 8 allan o 10 ar gyfer pa mor fodlon roeddent â'u bywydau. Roedd symptomau iechyd meddwl yn dueddol o fod yn fwy cyffredin, a boddhad â bywyd yn is, ymhlith plant o deuluoedd llai cyfoethog.
- Crybwyllodd llai na hanner y plant eu bod yn bwyta ffrwythau neu lysiau'n ddyddiol, a chrybwyllodd tua hanner ohonynt eu bod yn gwneud ymarfer corff yn eu hamser rhydd o leiaf 4 gwaith yr wythnos. Crybwyllodd merched a phlant o deuluoedd mwy cyfoethog eu bod yn bwyta mwy o ffrwythau a llysiau, tra crybwyllodd bechgyn a phlant o deuluoedd llai cyfoethog eu bod yn gwneud mwy o ymarfer corff.
- Roedd y rhan fwyaf o'r plant o'r farn bod ganddynt berthnasoedd cadarnhaol â staff yr ysgol, ac roedd y rhan fwyaf ohonynt yn gadarnhaol ynghylch perthnasoedd disgyblion yn yr ysgol ac ymgysylltiad disgyblion â bywyd ysgol hefyd.
- Roedd y rhan fwyaf o blant Blwyddyn 6 yn edrych ymlaen at bontio i'r ysgol uwchradd. Roedd patrwm cryf o ran poeni am bontio i'r ysgol uwchradd yn ôl statws economaidd-gymdeithasol, a chrybwyllodd mwy o blant o deuluoedd llai cyfoethog eu bod yn poeni.
- Crybwyllodd y rhan fwyaf o'r plant eu bod yn berchen ar nifer o ddyfeisiau electronig, a oedd yn cael eu defnyddio ar gyfer adloniant a chysylltiadau cymdeithasol yn bennaf, ond hefyd at ddibenion addysgol. Roedd perchenogaeth ar ddyfeisiau'n dueddol o fod yn fwy cyffredin ymhlith teuluoedd mwy cyfoethog.
- Crybwyllodd y rhan fwyaf o'r plant eu bod yn mynd i'r gwely rhwng 9pm a 10pm, ac roedd bechgyn a phlant o deuluoedd llai cyfoethog yn fwy tebygol o grybwyll amser gwely hwyrach.
- Crybwyllodd ychydig dros draean o ddisgyblion fod rhiant yn ysmegu, a chrybwyllodd 1 o bob 8 ohonynt fod rhiant yn ysmegu yn y cartref; mae rhieni'n ysmegu a rhieni'n ysmegu yn y cartref yn llai cyffredin ymhlith teuluoedd mwy cyfoethog.

9) Dadansoddiadau
rhagarweiniol o ddata CHETS
2019 a SHRN 2021

Dulliau a chafeatau

- Mae'r adran hon yn cynnig cymariaethau rhagarweiniol o nifer o ddeilliannau a fesurwyd yn 2021 ag arolwg blaenorol tebyg yn 2019
 - Mae dadansoddiadau manylach o newidiadau dros amser, at ei gilydd ac yn ôl is-grwpiau, yn mynd rhagddynt
 - Mae rhai gwahaniaethau allweddol o ran dulliau i'w hystyried wrth ddehongli'r cymariaethau
- Arolwg 2019 (Moore et al. 2021, cyllid gan CRUK)
 - Arolwg papur a phensil a oruchwyliwyd gan ymchwilydd
 - Sampl gynrychioliadol genedlaethol o 73 o ysgolion
 - Maint y sampl 2,218
 - Cyfradd ymateb ysgolion 37%; disgyblion cymwys mewn ysgolion a gymerodd ran 88%
 - Casglwyd y data rhwng mis Chwefror a mis Mehefin 2019
- Arolwg 2021 – rhai gwahaniaethau o ran modd, samplu ac adeg y flwyddyn
 - Modd – arolwg electronig yn bennaf, dan arweiniad athrawon
 - Samplu – samplau atgyfnerthu mewn nifer o awdurdodau lleol
 - Adeg y flwyddyn – rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2021

Ystyried goblygiadau newidiadau o ran dull wrth gymharu ar draws blynyddoedd yr arolygon



- Newid o arolwg papur a phensil ac arolwg dan arweiniad athrawon
 - Mae llawer o arolygon cymdeithasol yn symud i ddulliau ar-lein. Mae'r effeithiau o ran modd yr arolwg yn dueddol o fod yn fach⁹ a gallant leihau pan nad yw dull yn 'newydd' mwyach¹⁰. Cynhaliwyd yr arolwg ar ôl blwyddyn lle'r oedd gweithio ar-lein wedi dod yn norm, a allai fod wedi lliniaru hyn.
 - Mae'n bosibl bod y ffaith fod yr arolwg dan arweiniad *athrawon* yn hytrach nag *ymchwilydd* wedi effeithio ar sut yr ymatebodd rhai disgyblion, oherwydd y berthynas sydd ganddynt eisoes ag athrawon.
- Adeg y flwyddyn
 - Cynhaliwyd arolwg 2021 ychydig yn hwyrach yn y flwyddyn. Gallai deilliannau iechyd meddwl fod yn dymhorol, a gallai mesur y rhain yn nes at yr haf yn 2021 danamcangyfrif y gwahaniaethau rhwng yr arolygon. Gallai teimladau ynghylch pontio i'r ysgol uwchradd newid wrth iddo nesáu.
 - Ni chanfuom unrhyw gydberthyniad rhwng dyddiad y cyfweiliad a sgorau iechyd meddwl, sy'n awgrymu bod yr amcangyfrifon hyn wedi parhau'n sefydlog ar hyd cyfnod yr arolwg.
 - Fodd bynnag, canfuom fân gydberthyniad rhwng dyddiad yr arolwg ac edrych ymlaen at bontio ($r=0.15$; $p<0.001$), sy'n ategu damcaniaeth bod y rhain yn dod yn fwy cadarnhaol wrth i'r cyfnod pontio nesáu – gallai hyn esbonio pam yr oedd teimladau yn ymwneud â phontio ychydig yn fwy cadarnhaol yn 2021 nag yn 2019 (gweler Ffigur 9.6).
- Gallai gwahaniaethau samplu fod wedi effeithio ar wahaniaethau rhwng blynyddoedd yr arolygon
 - Awn i'r afael â'r mater hwn drwy ddefnyddio dadansoddiad sensitifrwydd sy'n cysoni'r sampl drwy gyfyngu cymariaethau i 31 o ysgolion a gymerodd ran yn ystod y ddau gyfnod amser (sleid 71).
 - Nid yw'r is-sampl hon yn gynrychioliadol yn genedlaethol ac mae'n llai ac yn llai manwl gywir, felly mae amcangyfrifon absoliwt yn newid rhywfaint.
 - Fodd bynnag, lle mae *gwahaniaethau* neu *gyffelybiaethau* rhwng blynyddoedd yr arolygon yn parhau'n gyson, mae hyn yn cynyddu hyder nad yw'r rhain oherwydd gwahaniaethau samplu yn unig. At ei gilydd, mae'r dadansoddiad hwn yn gymaradwy iawn â'n prif ddadansoddiad.

Cymaroldeb samplau ar ddemograffeg allweddol

		2019	2021
Graddfa Cyfoeth Teuluol – categori	Cyfoeth isel	35	31
	Cyfoeth canolig	40	42
	Cyfoeth uchel	25	27
Rhywedd	Bachgen	50	47
	Merch	50	49
	Hunaniaeth arall o ran rhywedd	<1%	2
	Data coll	<1%	1
Yn byw gyda...	Dau riant	67%	68%
	Llysdeulu	9%	10%
	Mam sengl	16%	16%
	Tad sengl	1%	1%

- Cymaroldeb da yn ôl demograffeg, ar y cyfan (rhywedd, SES a threfniadau byw)
- Defnyddiwyd pwysoli i gyfrif am yr amrywioldeb o ran samplau a'r ymateb gan awdurdodau lleol

Ffigur 9.1 Sgorau canran uwchlaw'r trothwy ar gyfer anawsterau emosiynol ac ymddygiadol dyrchafedig neu glinigol sylweddol (chwith) a chymedrau'r raddfa (de) yn 2019 a 2021⁵




Cynnydd mawr mewn anawsterau emosiynol clinigol sylweddol. Cynnydd clir mewn 'sgorau cyfartalog' ar gyfer anawsterau emosiynol.

Mân gynnydd mewn anawsterau ymddygiadol 'ffiniol', ond mân ostyngiad mewn anawsterau clinigol sylweddol, ac ychydig iawn o newid yn y sgôr cyfartalog ar gyfer anawsterau ymddygiadol.

*Sylfaen: Yr holl ymatebwyr ym MIwyddyn 6 a roddodd ateb (N = 3,943 anawsterau emosiynol/3,928 anawsterau ymddygiadol). * Mae sgorau'r graddfeydd wedi'u 'cyfraddio' ar yr amod bod >50% o eitemau unigol wedi'u cwblhau. Cafwyd amcangyfrifon tebyg lle y cyfyngwyd i 'achosion cyflawn'.*


Ffigur 9.2 Canran a roddodd sgôr o fwy na 7 ar gyfer mesur boddhad â bywyd Cantril yn 2019 a 2021



- Crybwyllodd y rhan fwyaf o blant lefel uchel o foddhad â bywyd yn y ddau arolwg
- Fodd bynnag, mae amcangyfrifon 2021 yn ymddangos ychydig yn is nag yn 2019

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr ym Mlwyddyn 6 a roddodd ateb (N = 3,819)


Ffigur 9.3 Canran a grybwyllodd eu bod yn cytuno â phob datganiad am ansawdd perthnasoedd ag athrawon, a hoffi'r ysgol, yn 2019 a 2021



- Roedd y mwyafrif helaeth yn cytuno â phob datganiad am berthnasoedd ag athrawon
- Nid oedd unrhyw batrwm cyson mewn mân newidiadau rhwng yr arolygon
- Mae'r canran sy'n dweud eu bod yn 'hoff iawn' o'r ysgol yn gostwng rhywfaint o 40 i 36 (er bod 81% yn hoffi'r ysgol o leiaf rywfaint yn y ddau arolwg)

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr ym Mlwyddyn 6 a roddodd ateb (Noedd yn amrywio o 3,700 i 3,792)


Ffigur 9.4 Canran a oedd yn cytuno â phob datganiad am berthnasoedd disgyblion yn yr ysgol yn 2019 a 2021



- Roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cytuno â phob datganiad am berthnasoedd disgyblion yn yr ysgol
- Roedd mân duedd tuag at amcangyfrifon ychydig yn is yn 2021 ar gyfer rhai eitemau
- Fodd bynnag, crybwyllodd ychydig bach yn llai o ddisgyblion eu bod yn teimlo bod eraill yn y bwlio yn 2021

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr ym Mlwyddyn 6 a roddodd ateb (Noedd yn amrywio o 3,647 i 3,804)


Ffigur 9.5 Canran a oedd yn cytuno â phob datganiad am ymgysylltiad â bywyd ysgol yn 2019 a 2021



- Roedd cytundeb â datganiadau llais y disgybl yn debyg ar draws yr arolygon
- Nid oedd unrhyw batrwm cyson o ran mân wahaniaethau rhwng y cyfnodau amser
- Yn 2021, crybwyllodd ychydig yn fwy o ddisgyblion eu bod yn teimlo y caiff syniadau disgyblion eu cymryd o ddifrif
- Crybwyllodd ychydig yn llai o ddisgyblion eu bod yn cyfrannu at gynllunio a phenderfyniadau

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr ym Mlwyddyn 6 a roddodd ateb (Noedd yn amrywio o 3,678 i 3,731)


Ffigur 9.6 Canran a grybwyllodd eu bod yn edrych ymlaen at bontio i'r ysgol uwchradd, yn poeni am bontio, y ddau neu ddim un ohonynt, yn 2019 a 2021



- Crybwyllodd y rhan fwyaf o blant eu bod yn edrych ymlaen at bontio i'r ysgol uwchradd
- Crybwyllodd canran ychydig yn uwch eu bod yn edrych ymlaen at bontio, heb fod yn poeni amdano hefyd, yn 2021 nag yn 2019
- Crybwyllodd ychydig yn llai o blant nad oeddent yn poeni nac yn edrych ymlaen at bontio yn 2021

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr ym Mlwyddyn 6 a roddodd ateb (N = 3,900)


Ffigur 9.7 Canran a grybwyllodd eu bod yn gwneud ymarfer corff o leiaf 4 gwaith yr wythnos, ac yn bwyta ffrwythau neu llysiau'n ddyddiol, yn 2019 a 2021



- Ar gyfer diet ac ymarfer corff, mae amcangyfrifon 2021 yn gyson yn llai iach nag yn 2019
- Mae canran y plant sy'n crybwyll eu bod yn bwyta ffrwythau a llysiau'n ddyddiol, ac yn gwneud ymarfer corff o leiaf 4 gwaith yr wythnos yn eu hamser rhydd, yn gostwng
- Roedd gan yr eitemau hyn raddau cymharol uchel o ddata coll

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr ym Mlwyddyn 6 a roddodd ateb (N = 3,594 i 3,680)

Ffigur 9.8 Canran a grybwyllodd fod eu rhieni'n ysmegu, neu'n ysmegu yn y cartref, yn 2019 a 2021



- Nid oedd llawer o newid yn y canran a grybwyllodd fod eu rhieni'n ysmegu
- Fodd bynnag, mae rhywfaint o dystiolaeth o ostyngiad yn nifer y plant sy'n crybwyll bod eu rhieni'n ysmegu *y tu mewn i'r cartref*

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr ym Mlwyddyn 6 a roddodd ateb (N = 3,831; rhieni sy'n ysmegu i 3,840; ysmegu yn y cartref. Tybiwyd nad oedd y rhiant yn ysmegu yn y cartref os na atebwyd yr eitem ond roedd ymateb cynharach yn awgrymu nad yw'r rhiant yn ysmegu.)

Dadansoddiad sensitifrwydd

- Roedd y dadansoddiad sensitifrwydd wedi'i gyfyngu i'r ysgolion (n=31 ysgolion o 18 o awdurdodau lleol) a gymerodd ran yn y ddau arolwg (n=1645)
- Ceir lefel uchel o gysondeb â'r dadansoddiad o'r sampl gyfan
 - Gwelwyd cynnydd amlwg mewn anawsterau emosiynol (o 18% i 27% ar gyfer anawsterau dyrchafedig neu glinigol sylweddol), ond nid mewn anawsterau ymddygiadol (14% i 13%)
 - Gwelwyd mân ostyngiad mewn boddhad â bywyd
 - Mae'r rhan fwyaf o'r amcangyfrifon cysylltioldeb ysgol yn debyg ar draws y cyfnodau amser, gyda rhai ohonynt ychydig yn fwy cadarnhaol yn 2019, ac eraill i'r gwrthwyneb
 - Mae bwyta ffrwythau a llysiau a gwneud ymarfer corff yn is yn 2021, fel yn y prif ddadansoddiad
 - Mae nifer ychydig yn fwy o ddisgyblion naill ai'n poeni neu'n edrych ymlaen at bontio yn 2021, gydag ychydig yn llai yn dweud nad ydynt yn poeni nac yn edrych ymlaen
- Un anghysondeb yw mân ostyngiad posibl yn nifer y rhieni sy'n ysmygu, nad oedd yn amlwg yn y prif ddadansoddiad
 - Ymddengys bod ysmygu yn y cartref yn gostwng o swm tebyg i'r prif ddadansoddiad

		2019	2021
Anawsterau emosiynol	Dyrchafedig	10	16
	Clinigol sylweddol	8	11
Anawsterau ymddygiadol	Dyrchafedig	5	6
	Clinigol sylweddol	9	7
Boddhad a bywyd	>7/10	68	65
Athrawon yn pryderu	Cytuno	89	91
Athrawon yn derbyn	Cytuno	90	91
Ymddiried mewn athrawon	Cytuno	86	83
Gallu ymddiried mewn oedolyn	Cytuno	87	83
Disgyblion yn mwynhau bod gyda'i gilydd	Cytuno	81	79
Disgyblion yn garedig ac yn gynorthwyol	Cytuno	79	73
Disgyblion yn fy nerbyn	Cytuno	78	75
Yn hoffi'r ysgol	Hoff iawn	41	37
Yn cael eu bwlio gan eraill	O leiaf weithiau	31	29
Disgyblion yn cyfrannu at weithgareddau	Cytuno	73	71
Disgyblion yn cyfrannu at benderfyniadau	Cytuno	76	72
Syniadau disgyblion yn cael eu cymryd o ddifrif	Cytuno	72	73
Ffrwythau	Dyddiol	57	49
Llysiau	Dyddiol	50	42
Ymarfer corff	O leiaf 4 gwaith yr wythnos	54	48
Pontio	Ddim y naill na'r llall	15	11
	Poeni	16	19
	Edrych ymlaen	50	52
	Y ddau	18	18
Rhiant yn ysmygu	Ydy	37	33
Rhiant yn ysmygu yn y cartref	Ydy	18	13

Canfyddiadau cryno – cymharu â data 2019

- Mae'r data hwn yn nodi, ychydig dros flwyddyn i'r pandemig COVID-19
 - Roedd cynnydd nodedig yng nghyfran y plant a grybwyllodd anawsterau emosiynol dyrchafedig neu glinigol sylweddol ers COVID-19.
 - Fodd bynnag, mae amcangyfrifon o ran y gyfran ag anawsterau ymddygiadol dyrchafedig neu glinigol sylweddol ychydig yn wahanol rhwng arolygon 2019 a 2021.
 - Mae boddhad â bywyd yn ymddangos ychydig bach yn is yn ein harolwg yn 2021 nag yn 2019.
 - Roedd ymddygiad plant o ran diet ac ymarfer corff yn llai iach yn 2021 nag yn ein harolwg yn 2019, sy'n awgrymu dirywiad mewn ymddygiad sy'n ymwneud ag iechyd.
 - Mae'r rhan fwyaf o blant yn gadarnhaol ynghylch y berthynas ag athrawon a disgyblion yn yr amgylchedd ysgol o hyd, ac nid oes llawer o dystiolaeth o newid o ran cysylltioldeb ysgol.
 - Crybwyllodd y rhan fwyaf ohonynt eu bod yn edrych ymlaen at bontio hefyd, er bod y garfan hon wedi colli cyfran sylweddol o addysgu wyneb-yn-wyneb yng Nghyfnod Allweddol 2.
 - Parhaodd canran y plant y mae eu rhieni'n ysmegu yn sefydlog, ond mae ein hamcangyfrifon o'r canran sy'n dweud bod eu rhieni'n ysmegu yn y cartref yn 2021 yn is nag yn 2019.

Cyfeiriadau

1. Murphy S, Littlecott H, Hewitt G, MacDonald S, Roberts J, Bishop J, et al. A transdisciplinary complex adaptive systems (T-CAS) approach to developing a national school-based culture of prevention for health improvement: the School Health Research Network (SHRN) in Wales. *Prevention Science*. 2018:1-12.
2. Moore G, Angel L, Brown R, van Godwin J, Hallingberg B, Rice F. Socio-Economic Status, Mental Health Difficulties and Feelings about Transition to Secondary School among 10–11 Year Olds in Wales: Multi-Level Analysis of a Cross Sectional Survey. *Child Indicators Research*. 2021.
3. Hewitt G, Anthony R, Moore G, Melendez-Torres G, Murphy S. Iechyd a Lles Myfyrwyr yng Nghymru: Adroddiad Arolwg o Ymddygiad Iechyd Mewn Plant Oedran Ysgol 2017/18 ac Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion. 2019.
4. Torsheim T, Cavallo, F., Levin, K, A., Schnohr, C., Mazur, J., Niclasen, B et al. . Psychometric validation of the revised family affluence scale: A latent variable approach. *Child Indicators Research*, 2016 9(3), 771–784.
5. Deighton J, Tymms P, Vostanis P, Belsky J, Fonagy P, Brown A, et al. The development of a school-based measure of child mental health. *Journal of psychoeducational assessment*. 2013;31(3):247-57.
6. Huebner ES. Further validation of the students' life satisfaction scale: The independence of satisfaction and affect ratings. *Journal of Psychoeducational Assessment*. 1991: 9, 363-368.
7. Rice F, Riglin, L., Ng-Knight, T., Frederickson, N., Shelton, K., & McManus, C,. A longitudinal multi-informant study of psychological adjustment and academic attainment over the transition from primary school to secondary school. Colchester, Essex: UK Data Archive. 2017.
8. Rice F, Ng-Knight, T., Riglin, L., Powell, V., Moore, G, F., McManus, C, I., Shelton, K, H., & Frederickson, N,. Pupil mental health, concerns and expectations about secondary school as predictors of adjustment across the transition to secondary school: A longitudinal multi-informant study. *School Mental Health*. 2021.
9. Black C, Murray L, Setterfield L Sperati A, Ipsos MORI Scotland. Scottish Schools Adolescent Lifestyle and Substance Use Survey (SALSUS). Mode effect study report. <https://www.gov.scot/publications/scottish-schools-adolescent-lifestyle-substance-use-survey-salsus-mode-effect/documents/>
10. Hood K, Robling M, Ingledew D, Gillespie D, Greene G, Ivins R, Russel I, Sayers A, Shaw C, Williams J Mode of data elicitation, acquisition and response to surveys: a systematic review. *Health Technology Assessment* 16;27